**LGH-09-02 (min)**

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 22 Mai 2002 | |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.00pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| | Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| | Geraint Davies | Rhondda |
| | William Graham | Dwyrain De Cymru |
| | Edwina Hart (Gweinidog) | Gyr |
| | Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| | Peter Law | Blaenau Gwent |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd (Eitem 4) |
| | **Yn bresennol:** | |

| | |
|---|---|
| David A'Herne | Cyfarwyddwr Cymru dros Ostwng Troseddu |
| Jeff Davies | Adfywio Cymunedol |
| Rob Hay | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol |
| Jonathan Rae | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol |
| Colin Everett | Syniad |
| Yr Athro David Adamson | Ymgynghorydd Arbenigol |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | |
| Roger Chaffey | Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**Sylwadau Agoriadol**

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael gwahoddiad i fod yn bresennol ar gyfer Eitem 4 ac estynnodd groeso i Ann Jones a Geraint Davies. Roedd Geraint Davies hefyd yn dirprwyo dros Janet Ryder.

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau na fu'n bosibl trefnu ymweliad â'r prosiectau tai yn y Betws a Brackla ar 30 Mai yn anffodus. Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor sesiwn arall ar gyfer diwrnod cwmpasu ar 4 Gorffennaf. Roedd yr aelodau'n fodlon cynnal yr ymweliad y diwrnod hwnnw a byddai'r Clerc yn gwneud y trefniadau.

Dywedodd y Cadeirydd fod y TG wedi methu yn y cyfarfod diwethaf am nad oedd y cyflwynydd wedi dod â'i liniadur ei hun gydag ef ac nad oedd y swyddogion wedi gallu trefnu cyfrifiadur cytûn mewn pryd. Ychwanegodd fod yr offer i gyd yn gweithio ar gyfer y cyflwyniad heddiw. Nid oedd Peter Law yn fodlon â'r esboniad a gofynnodd am ateb ysgrifenedig. Cytunodd y Cadeirydd i'r cais hwn.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn cyflwyniad gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil ar Ganolfan Ailfeddwl Adeiladu Cymru ar 10 Gorffennaf. Gan fod hyn yn effeithio ar Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, gofynnodd am ganiatâd yr aelodau i wahodd aelodau o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar gyfer yr eitem honno. Cytunodd yr aelodau.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a Dirprwyon**

1.1 Roedd Geraint Davies yn dirprwyo dros Janet Ryder, a oedd wedi anfon ei hymddiheuriadau.

**Eitem 2: Datgan Buddiannau**

2.1 Gwnaed y datganiadau canlynol:

Peter Black: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

William Graham: Aelod o Gyngor Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd.

Pauline Jarman: Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dai Lloyd: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Geraint Davies: Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog LGH-09-02(p.1)**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad gan dynnu sylw at y cyfarfod a gafodd yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol.

3.2 Yn ystod y drafodaeth, cododd yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Sut y byddir yn dangos bod trefniadau newydd wedi'u sefydlu o ran y gwasanaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal? Nodwyd hefyd fod y rhan fwyaf o gynghorwyr yn ymwybodol iawn o'r trefniadau ar hyn o bryd o ran ymweliadau cylchdröol â chartrefi plant ond nodai Adroddiad Waterhouse fod angen gwneud cartrefi preswyl yn llai. Mae plant sy'n derbyn gofal hefyd yn cael gofal drwy rieni maeth a gofalwyr eraill ac mae yna ofyniad i osgoi gofal sefydliadol i'r graddau y gellir cyflawni hynny. Roedd llythyr gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei gylchredeg cynt yng nghyswllt y pryderon sy'n dal i fodoli yngln â rôl aelodau unigol sydd â chyfrifoldeb am les plant, a bod angen egluro'r trefniadau newydd hyn ymhellach i ddangos sut y byddant yn darparu ar gyfer hyn.
- Cafodd yr adroddiad ar reoliadau yngln â threfniadau gwahanol ei groesawu a chytunai'r aelodau fod yn rhaid sicrhau sefydlogrwydd. Teimlai'r aelodau hefyd y byddai adolygiad gorfodol ar ôl i'r trefniadau newydd fod yn weithredol am 12 mis yn archwiliad defnyddiol.
- Croesawai'r aelodau y daflen hyrwyddo ar ddod yn gynghorydd a gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn ystyried symleiddio'r trefniadau pleidleisio ar gyfer y dyfodol?
- Holodd yr aelodau a fyddai cymunedau pellach, a gâi eu henwi yn sgîl Cyfrifiad 2001, yn cael eu cynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf?

3.3 Rhoddodd y Gweinidog yr ymateb canlynol a chynigiodd gymryd y camau a ganlyn:

- Ystyriwyd y manylion i gyd yn fanwl wrth baratoi'r canllawiau ar blant sy'n derbyn gofal. Gofynnodd y Gweinidog i'r swyddogion ddarparu manylion am enghreifftiau penodol lle'r oedd awdurdodau, o dan eu cyfansoddiad newydd, wedi sefydlu trefniadau cryf er mwyn cyflawni rolau a dyletswyddau swyddogion ac aelodau etholedig yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal.
- Byddai'r Gweinidog yn ystyried y cyngor oddi wrth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion Cyfreithiol er mwyn bwrw goleuni ar gyfrifoldebau swyddogion ac aelodau yng nghyswllt plant sydd mewn cartrefi preswyl.
- Dywedodd fod yr awdurdodau lleol wedi ymaddasu'n dda i foderneiddio yng Nghymru a bod arweinwyr yr awdurdodau lleol yn rhoi llawer iawn o ymdrech i mewn i sicrhau sefydlogrwydd. Ychwanegodd fod yr etholiadau diweddar yn Lloegr i ethol Meiri wedi bod yn gostus a gobeithiai y byddai synnwyr cyffredin yn ennill y dydd yng Nghymru.
- Byddai'r Gweinidog yn trafod gyda CLILC ac o bosibl yn cynnal arolwg o sampl o awdurdodau lleol i weld sut yr oedd y strwythurau gwleidyddol newydd yn gweithio, ar ôl iddynt fod mewn grym am ddeuddeg mis.
- Dywedodd fod y Comisiwn Etholiadol yn cynghori'r llywodraeth ganolog ar sut mae cael cynifer â phosibl o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi edrych ar y mater hwn mewn perthynas â phobl anabl yn arbennig a deallai y gallai newidiadau cadarnhaol gael eu rhoi ar waith ar gyfer yr etholiadau lleol yng Nghymru yn 2004. Cytunodd i adrodd yn ôl yng Ngorffennaf ar y cynnydd a wnaed yn trafod newidiadau posibl.
- Dywedodd ei bod yn disgwyl yn eiddgar am ganlyniadau Cyfrifiad 2001 ac y bydd yn edrych ar ba effaith a gaiff y ffigurau hyn ar y mynegai amddifadedd.

4. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau nodi bod Atodiad 2 at Adroddiad y Gweinidog yn cynnwys Rhaglen Is-ddeddfwriaeth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am weddill y flwyddyn. Ychwanegodd fod craffu ar is-ddeddfwriaeth yn un o swyddogaethau allweddol y Pwyllgor yn ei thyb hi a'i bod yn bwriadu gofyn i Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor ddarparu cyngor cyn penderfynu a ddylid cynnwys unrhyw rai o'r rheoliadau arfaethedig yn y Flaen Raglen Waith. Gwahoddwyd yr aelodau i awgrymu eitemau sy'n haeddu ystyriaeth bellach.
5. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n croesawu unrhyw sylwadau ar fformat eu hadroddiadau.

**Eitem 4:Partneriaethau Gostwng Troseddu LGH-09-02 (p.2)**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Ann Jones i'r cyfarfod. Gwahoddodd y Gweinidog i gyflwyno'r 2 bapur ar yr eitem hon gan ychwanegu y byddai Cyfarwyddwr Cymru dros Ostwng Troseddu, David A'Herne, yn gwneud cyflwyniad. Roedd Jeff Davies o'r Uned Adfywio Gymunedol wedi dod gydag ef. Mae Mr Davies ar secondiad i'r Cynulliad Cenedlaethol o Heddlu Dyfed-Powys.

2. Cyflwynodd y Gweinidog y ddau bapur a oedd wedi eu rhoi gerbron. Deilliodd y cyntaf, *Crime reduction and social inclusion*, o gyfarfod 21 Tachwedd 2001, pryd y gofynnodd y Pwyllgor am adroddiadau rheolaidd ar gynlluniau gostwng lefel troseddu a'r cysylltiadau rhyngddynt â'r agenda cynhwysiant cymdeithasol ehangach. Roedd yr ail, *Crime and disorder reduction partnerships*, yn adlewyrchu'r drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod 8 Mai pryd y soniodd y Gweinidog am y pryderon yngln â'r cynnydd yn y cyffuriau Dosbarth A sydd ar gael yng Nghymru. Ychwanegodd y Gweinidog ei bod yn ceisio trefnu cyfarfod anffurfiol rhwng y Pwyllgor a'r Prif Gwnstabliaid ar y mater hwn.
3. Dywedodd David A'Herne y byddai ei gyflwyniad ef yn canolbwyntio ar y pryderon yngln â'r cynnydd yn y cyffuriau Dosbarth A sydd ar gael yn Ne Cymru. Y prif bwyntiau oedd:

- Mae camddefnyddio cyffuriau yn broblem sydd yma i aros ond gellir gostwng lefel y defnydd o gyffuriau drwy i'r holl asiantaethau perthnasol gydweithio â'i gilydd.
- Mae cudd-ymchwil yr heddlu wedi cadarnhau y gallai'r broblem gynyddol o gamddefnyddio cyffuriau a throseddau treisgar cysylltiol ym Mryste a'r cyffiniau ledaenu i Dde Cymru. Roedd y diwylliant cyffuriau ym Mryste wedi cyrraedd ei lawn dwf erbyn hyn. Herion a chocên crac yw'r cyffuriau dan sylw.
- Mae'r Prif Gwnstabliaid yn gwerthfawrogi difrifoldeb yr effaith y gallai hyn ei gael yn Ne Cymru ac maent am fod gam o flaen y broblem.
- Cytunai mai'r ffordd o ddelio â'r broblem hon yw drwy broses ddi-fwlch ar ran pob parti sy'n gysylltiedig â llunio un strategaeth. Byddai'r strategaeth hon yn canolbwyntio nid yn unig ar orfodi'r gyfraith ond ar addysg, atal a thriniaeth i'r rhai sydd eisoes yn gaeth i gyffuriau.
- Ni all atebion fodoli mewn gwactod. Credir bod angen i strategaeth y cytunir arni gael ei rheoli fel prosiect gyda Phrif Weithredwr yn rheoli pob partner sy'n ymwneud â'r gwaith o ddydd i ddydd. Cyffelybwyd y system hon i'r dull a ddefnyddiwyd gyda phrosiect Byg y Mileniwm Y2K.
- Y casgliad oedd y byddai defnyddio system gwbl ddi-fwlch yn cael effaith gadarnhaol ar gamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru maes o law.
- Hysbyswyd yr aelodau fod un o Bwyllgorau Dethol T'r Cyffredin yn cyhoeddi adroddiad ar gamddefnyddio cyffuriau yn ddiweddarach yn y dydd.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r aelodau fod y wybodaeth hon yn peintio darlun annymunol iawn a chroesawent y cynlluniau yr oedd yr Heddluoedd ac asiantaethau eraill yn gweithio arnynt.
- Cytunai'r aelodau mai ymdriniaeth ddi-fwlch oedd yr unig ffordd i ddelio â chamddefnyddio cyffuriau a bod yn rhaid annog partneriaeth o'r holl bartïon.
- Rhaid i unrhyw strategaeth gynnwys addysg, o du rheini ac yn yr ysgolion o du athrawon a swyddogion yr heddlu. Roedd gorfodi'r gyfraith yn anghenraid ym mhob sector o'r farchnad gyffuriau; gwerthwyr lleol, cyfanwerthwyr a mewnforwyr. Roedd angen canolbwyntio ar drin pobl sy'n gaeth i gyffuriau, gan fod yna brinder llefydd ailsefydlu a dadwenwyno ar raglenni.
- Teimlai'r aelodau fod y mater hwn yn cael effaith drawsbynciol nid yn unig ar y pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ond hefyd ar y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Cynulliad cyfan. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Brif Weinidog

Cymru am yr angen i fabwysiadu ymdriniaeth "ddi-fwlch", yn cynnwys pob asiantaeth, er mwyn gwrthsefyll y bygythiad y bydd rhagor o gyffuriau Dosbarth A yn dylifo i mewn, yn enwedig yn Ne Cymru.

- Trafododd yr aelodau hefyd broblem camddefnyddio cyffuriau mewn rhannau eraill o Gymru, yn enwedig ardal y Rhyl, a gofynnwyd pa gynlluniau oedd ar y gweill yno i ymladd y broblem.
- Dywedodd yr aelodau hefyd fod y cynllun *Cartrefi Mwy Diogel y Gaeaf Hwn* wedi cael derbyniad da a gofynnwyd a yw ar gael ledled Cymru.
- Gofynnodd yr aelodau a oedd gwerthusiad o Brosiect Trais ar Strydoedd Caerdydd oherwydd Alcohol (TASC) ar gael.
- Roedd yr aelodau yn cefnogi'r cynllun Adwerthwyr Bach mewn Ardaloedd Difreintiedig a dywedasant eu bod wedi cael llawer o atborth cadarnhaol gan etholwyr.

1. Cafwyd yr ymatebion canlynol:

- Nid yw'r Heddlu yn credu bod yna fygythiad i Ogledd Cymru o'r broblem y tynnwyd sylw ati ym Mryste. Mae'n wir fod gan un rhan o'r Rhyl enw fel man lle camddefnyddir cyffuriau ond roedd ymgyrch ddiweddar gan Heddlu Gogledd Cymru wedi cael gwared â nifer fawr o werthwyr ac mae asiantaethau yn yr ardal yn canolbwyntio ar drin defnyddwyr.
- Cydnabuwyd i'r cynllun *Cartrefi Mwy Diogel y Gaeaf Hwn* gael effaith fawr o ran rhoi tawelwch meddwl i gymunedau, yn enwedig yr henoed.
- Roedd adroddiad yn cael ei lunio ar hyn o bryd ar y gwerthusiad o gynllun TASC. Pan gyhoeddir ef, bydd yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor.
- Roedd y cynllun Adwerthwyr Bach mewn Ardaloedd Difreintiedig wedi cael effaith gadarnhaol ac roedd £1m wedi ei ddyrannu i Gymru am y 3 blynedd nesaf.
- Cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed yn y trafodaethau rhwng y Swyddfa Gartref a'r Trysorlys ar raniad cyfalaf/refeniw y cyllid ar gyfer "Cymunedau yn Erbyn Cyffuriau".

4.6 Diolchodd y Cadeirydd i David A'Herne am y cyflwyniad ac i'r Pwyllgor am drafodaeth hynod adeiladol.

**Eitem 5: Cyflwyniad gan Syniad**

5.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Colin Everett, Pennaeth Gwella Syniad. Mae Syniad wedi ei integreiddio i mewn i CLlLC ond mae wedi cadw ei hunaniaeth. Caiff Syniad gymorth grant llawn gan y Cynulliad Cenedlaethol.

5.2 Dywedodd Colin Everett y byddai ei gyflwyniad yn canolbwyntio ar waith Syniad yn cynorthwyo aelodau etholedig a'u hanghenion datblygu yn wyneb cyfansoddiadau a chyfrifoldebau newydd. Mae gan Syniad 7 aelod staff gweithredol sy'n ymwneud â datblygiad aelodau. Y prif bwyntiau oedd:

- Disgwyliadau: rhoi pwyslais ar bobl ac ar ddatblygu pobl.

- Diffinio datblygiad: mae aelodau etholedig yn cydnabod yr angen i fuddsoddi a'r gwahanol fathau o ofynion.
- Galwadau: yn rhannu'n wybodaeth a sgiliau.
- Faint a fanteisiodd yn 2000-02: mae yna 1200 o aelodau etholedig yng Nghymru – mae'r mwyafrif ohonynt wedi manteisio ar rywfaint o hyfforddiant a datblygiad. Da yw nodi bod 13 o'r 22 awdurdod unedol wedi ymrwymo i Siarter yr Aelodau.
- Materion o bwys: mae angen dal y fantol rhwng materion lleol a chenedlaethol.
- Strategaeth Genedlaethol: mae gofyn ymchwilio a sefydlu beth yw anghenion datblygu aelodau a rheolwyr. Gofyniad pwysig i werthuso rhaglenni ar ôl iddynt gael eu cyflwyno.
- Rôl y Gymdeithas: Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â CLlLC, yn anelu at gryfhau'r cymorth strategol ac ymarferol ar gyfer hyfforddi a datblygu arweinwyr, rheolwyr a staff.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r aelodau fod hon wedi bod yn drafodaeth galonogol a di-flewyn ar dafod a bod Syniad yn arf gwerthfawr iawn o fewn CLlLC. Teimlent fod aelodau yn llygad y cyhoedd ac yn sgîl cyflwyno ffïoedd a lwfansau uwch maent yn fwy agored i archwiliad o du'r etholwyr a dylent gael eu hannog i fynychu cyrsiau datblygu perthnasol.
- Nododd yr aelodau fod 13 o'r awdurdodau lleol wedi ymrwymo i Siarter yr Aelodau a theimlent fod hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir. Gofynnodd yr aelodau beth oedd cynnwys y Siarter.
- Gofynnodd yr aelodau a oedd adolygiad cymheiriaid wedi'i gynnal ac, os felly, a fyddai'n cael ei argymell i'r cynghorau.
- Nodwyd bod gan lawer o gynghorwyr ymrwymiadau gwaith sy'n ei gwneud yn anodd iddynt fynychu hyfforddiant yn ystod oriau swyddfa a gofynnodd yr aelodau a oedd hyfforddiant ar gael ar adegau eraill.

5.4 Rhoddwyd yr ymatebion canlynol:

- Dywedodd Colin Everett y byddai'n anfon copïau o Siarter yr Aelodau at y Cadeirydd i'w dosbarthu i'r aelodau.

- Mae'r awdurdodau lleol wedi manteisio at brofiad cymheiriaid lle bo hynny'n briodol ac mae defnyddio'r dull hwn yn fodd i gael a lledaenu cyfoeth o brofiad. Fodd bynnag, y cyngor yw troedio'n bwyllog; dylai awdurdodau reoli'r dull datblygu hwn yn ofalus.
- Mae Syniad yn fodlon cynnal sesiynau fel sy'n gweddu i ofynion y cynrychiolwyr, boed hynny fin nos neu ar benwythnosau. Nid yw'r hyfforddiant yn cael ei ganoli yng Nghaerdydd; fe'i cynhelir yn lleol.

5.5 Diolchodd y Cadeirydd i Colin Everett am ei gyflwyniad.

### Eitem 6: Ystyried Data Gwasanaethau Cymdeithasol Personol ar gyfer fformwla Asesiad o Wariant Safonol 2003-04 LGH-09-02 (p.3)

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Rob Hay a Jonathan Rae o'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol i'r cyfarfod. Dywedodd mai pwynt gweithredu yn deillio o'r cyfarfod ar 30 Ionawr oedd yr eitem hon. Bryd hynny, holwyd y Gyfarwyddiaeth Ystadegol yngln â'r posibilrwydd o ymgorffori rhai newidiadau yn nata'r gwasanaethau cymdeithasol personol yn setliad 2003-04.
2. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor na fu'n bosibl cael gafael ar yr holl ddata gofynnol yn y fformat cywir i sicrhau setliad yn barod ar gyfer 2003-04, yn anffodus.
3. Derbyniai'r aelodau fod hwn yn ymarferiad hynod o anodd ond gofynnwyd a ellid addasu'r fformat presennol hyd nes y bydd y fformwla ddiwygiedig yn barod.
4. Ceisiwyd eglurhad hefyd ar ddau fater a oedd wedi'u cynnwys yn is-baragraff (vii) o baragraff 8. Beth a olygir gan fodelu a sut mae'r cyfrifoldeb am ofal nyrsio wedi newid.
5. Dywedodd y Gweinidog na fyddai'r fformat presennol yn cael ei newid yn y cyfamser. Dywedodd Rob Hay y byddai'r fformwla gyfan yn cael ei seilio ar y cyfanswm a geid o fodelau pob un o'r 22 awdurdod unedol. Yn ateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, eglurodd fod y cyfeiriad at newid yn y cyfrifoldeb am ofal nyrsio wedi ei gynnwys i adlewyrchu'r trefniadau a gyflwynwyd i rannu cyllidebau.

### Eitem 7: Adolygiad polisi ar adfywio cymunedol – ystyried yr argymhellion drafft LGH-08-02 (p4)

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Athro Dave Adamson i'r cyfarfod. Dywedodd fod y Pwyllgor, yn ei gyfarfod diwethaf ar 8 Mai, wedi trafod y materion a oedd yn dod i'r amlwg o'r adolygiad polisi ac wedi ystyried nifer o opsiynau o ran argymhellion i'w cynnwys yn ei adroddiad maes o law. Daw'r papur hwn â'r argymhellion hynny ynghyd yn ogystal â sylwadau ar yr ystyriaethau a achosodd iddynt gael eu mabwysiadu.
2. Roedd papur diwygiedig wedi cael ei gylchredeg yn ymgorffori'r diwygiad fel y'i cofnodir ym mharagraff 8.1 y cofnodion hyn.
3. Gwnaed cais am newid y gair *manpower* yn nhrydedd linell argymhelliad drafft 2.1. Cytunwyd i hynny a chadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â'r argymhellion.

### Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai LGH-08-02 (min)

8.1 Nodwyd bod eitem 7, Adran 5, Perthnasoedd gyda Phartneriaid yn y Sector Statudol, yn anghywir. Dylai ddarllen: "Cytunwyd i dderbyn opsiwn 3."

8.2 Cytunwyd ar y cofnodion.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2002**

**Crynodeb o'r pwyntiau gweithredu:**

1. Y Gweinidog i ddarparu manylion am enghreifftiau penodol lle'r oedd awdurdodau, o dan eu cyfansoddiad newydd, wedi sefydlu trefniadau cryf er mwyn cyflawni rolau a dyletswyddau swyddogion ac aelodau etholedig yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal.
2. Y Gweinidog i ystyried y cyngor oddi wrth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion Cyfreithiol er mwyn bwrw goleuni ar gyfrifoldebau swyddogion ac aelodau yng nghyswllt plant sydd mewn cartrefi preswyl.
3. Adroddiadau'r Gweinidog i gynnwys adroddiadau ar ei chyfarfodydd gyda'r sector gwirfoddol pan fo hynny'n briodol.
4. Y Gweinidog i drafod gyda CLlLC ac o bosibl i gynnal arolwg o sampl o awdurdodau lleol i weld sut yr oedd y strwythurau gwleidyddol newydd yn gweithio, ar ôl iddynt fod mewn grym am ddeuddeg mis.
5. Y Gweinidog I ddarparu adroddiad ynghylch hynt y trefniadau etholiadol ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol.
6. Y Gweinidog i roi adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed yn y trafodaethau rhwng y Swyddfa Gartref a'r Trysorlys ar raniad cyfalaf/refeniw y cyllid ar gyfer "Cymunedau yn Erbyn Cyffuriau".
7. Y Cadeirydd i ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru am yr angen i fabwysiadu ymdriniaeth "ddi-fwlch", yn cynnwys pob asiantaeth, er mwyn gwrthsefyll y bygythiad y bydd rhagor o gyffuriau Dosbarth A yn dylifo i mewn, yn enwedig yn Ne Cymru.

8. Y Gweinidog i rhoi adroddiad ar hynt y cynllun TASC.